# AROLYGU, MONITRO A RHEOLI DATA

## 1. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Cynyddu gwybodaeth am fioamrywiaeth Gwynedd, yn cynnwys dosbarthiad a statws rhywogaethau Natur Gwynedd.
2. Hyrwyddo gweithrediad effeithiol Natur Gwynedd.
3. Sicrhau cydlyniad rhwng Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth lleol a chenedlaethol.

## 2. CAMAU ARFAETHEDIG

| **Côd** | **Camau** | **Partner(iaid)**[a] |
|---|---|---|
| 1 | Cefnogi sefydlu Canolfan Cofnodion Lleol Gogledd Cymru<br>TARGED/AMSERLEN: Swyddog Datblygu erbyn 2005: | ***CG***, AA, CCGC, CCth, CBNGC |
| 2 | Cefnogi cynnal Canolfan Cofnodion Lleol Gogledd Cymru effeithiol trwy lunio Cytundebau Lefel Gwasanaeth lle bo hynny'n addas<br>TARGED/ AMSERLEN: Cytuno i gytundeb lefel gwasanaeth erbyn 2006 | ***CG***, partneriaid perthnasol |
| 3 | Annog casglu data ar rywogaethau a chynefinoedd Natur Gwynedd trwy ricriwtio gwirfoddolwyr (yn cynnwys myfyrwyr CP Bangor) i arolygu rhaglenni'n drwyadl, a hefyd cefnogi prosiectau casglu data (Gyda chofnodwyr lleol a grwpiau diddordeb mewn rhywogaethau)<br>TARGED/AMSERLEN: cynhyrchu amserlen arolwg yn canolbwyntio ar rywogaethau penodol yn ystod 2005, | ***CG***, GGB, YAP, CCGC, CEH, CAC, AA, CBNGG, Plantlife, CPB, CFGA |
| 4 | Annog casglu data ar rywogaethau blaenoriaeth Prydain a / neu Cymru y gwyddom eu bod yn bodoli yng Ngwynedd ond sydd yn brin iawn neu heb gofnod diweddar ohonynt e.e y wiwer goch, gwenyn prin<br>TARGED: ystyried trefnu arolygon o ardaloedd penodol/cyfredol | ***CG*** |
| 5 | Sicrhau cydlyniad yr holl arolygon lleol gyda'r rhai mewn partneriaethau CGBLl cyfagos a gyda rhaglenni arolygu cenedlaethol os bydd hyn yn berthnasol.<br>TARGED/AMSERLEN: cydlynu gyda chofnodwyr lleol a grwpiau yn ymwneud â rhywogaethau | ***CG*** |
| 6 | Annog cyflwyno cofnodion yr holl arolygon lleol i'r cyrff perthnasol ar gyfer eu cynnwys mewn basau data cenedlaethol.<br>TARGED: cydlynu gyda chofnodwyr lleol a grwpiau yn ymwneud â rhywogaethau | ***CG*** |
| 7 | Sicrhau bod y cynnydd a wneir ar weithredu holl gamau Natur Gwynedd yn cael ei gofnodi yn genedlaethol trwy system gofnodi CGB Prydain.<br>TARGED: bod yn rhan o holl gamau cofnodi CGB Prydain/ Cyfredol | ***CG*** |
| 8 | Codi ymwybyddiaeth am achosion rhywogaethau wedi eu gwarchod ac anghenion arolygu ymysg staff CG gan gynnwys y rhai hynny yn Rheolaeth Datblygu a Priffyrdd. Hefyd staff AA, CCth, a phartneriaid eraill, datblygwyr, penseiri, ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio, rhai hynny sydd yn derbyn grantiau i adnewyddu tai - drwy ddarparu deunydd a gwybodaeth briodol<br>TARGED/AMSERLEN: i'w osod, cyfredol | ***CG***, partneriaid perthnasol |

[a] Dynodir y prif bartner gyda llythrennau "bold" - gweler adran 3.2 am eglurhad o'r byrfodau

## 3. PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

### 3.1 Prif bartner ar gyfer CGP

Cyngor Gwynedd (CG)

### 3.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Gwarchod Gloÿnnod Byw (GGB)

Cymdeithas adaryddol Cambria (CAC)

Ymddiriedolaeth Adaryddol Prydain (YAP)

Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH)

Asiantaeth yr Amgylchedd (AA)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Plantlife

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (CFGA)

Coleg Prifysgol Bangor (CPB)

### 3.3 Cyfleoedd

Cofnodwyr lleol, grwpiau yn ymwneud â rhywogaethau

## 4. DIOLCHIADAU

**Prif Awdur:** Tîm Bioamrywiaeth (CG)
**Ymgynghorwyr:** Chris Wynne (CBNGC),

## 5. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGBLl: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

Fersiwn 1. 2004